# CYNGOR CYMUNED LLANDDYFNAN

**COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD NOS FAWRTH**

**18 Mawrth 2025, Trwy Zoom am 7:00 y.h.**

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:**<br>Cyng A Williams, W Williams, S Jones, R Hughes, C McGregor, D ap Rhobert, D Rees (Cyngor Sir), G Owen (Clerc) | |
| **YMDDIHEURIADAU:**<br>Cyng M Jones, E Williams. | |
| 1 | Cadeirwyd y cyfarfod gan y Cadeirydd Cyng S Jones. Croesawodd y Cadeirydd pawb i'r cyfarfod. |
| 2 | **DATGAN DIDDORDEB** – Dim |
| 3 | **DERBYN COFNODION**<br>Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod 25.02.25. Fe'u derbyniwyd fel rhai cywir a chyflawn. Cyng C McGregor yn cynnig a Cyng R Hughes yn eilio. |
| 4 | **MATERION YN CODI O'R COFNODION** |
| 4.1 | B5110 40myh - Mae'r Cyngor Sir yn aros am ganllawiau newydd gan Lywodraeth Cymru ar ardaloedd 30/40mya. |
| 4.2 | **Llwybrau Cyhoeddus** Talwrn, Llwybr at y cae chwarae, Lon y Capel, Llwybrau y Gors. Mae'r Clerc wedi siarad â'r contractwr sy'n dweud y bydd yn eu torri cyn gynted â phosibl. Cytunwyd os na fyddant yn cael eu gwneud erbyn y cyfarfod nesaf, bydd y Clerc yn gofyn i'r Cyngor Sir a ydynt yn gallu gwneud y gwaith. Mae Lôn y Capel wedi ei wneud. |
| 4.3 | **Penbonc/Neuadd Talwrn** - Mae Pwyllgor Neuadd Talwrn wedi gofyn am gyfarfod safle. Mae'r Clerc wedi cyfeirio'r cais at y Cyngor Sir. |
| 4.4 | **Tro yn Llangwyllog** - Mae'r Clerc wedi gofyn am arwyddion ychwanegol. |
| 4.5 | **Croesffordd Maenaddwyn** - Mae'r Clerc yn aros am ddrych newydd ym Maenaddwyn ac i'r drych arall gael ei osod yn iawn. |
| 4.6 | **Sgwar Talwrn (damweiniau)** - Cynhaliwyd cyfarfod ar 12.03.25 rhwng yr Adran Priffyrdd a'r Cyngor Cymuned. Mae'r Adran Priffyrdd yn cynnig symud yr "arwyddion araf" ymhellach i gyfeiriad Pentraeth a gwella'r stribedi ffordd. Byddant yn dod yn ôl at y Cyngor Cymuned gyda'u cynigion. |
| 4.7 | **Coeden Mynwent Llanfihangel Tre'r Beirdd** - Dywedodd y Clerc bod y cwmni yswiriant wedi gwrthod talu am gael gwared ar y goeden. Cytunwyd i gael 2 ddyfynbris am y gwaith. |
| | Llofnod.............................Cadeirydd 15.04.25 |

| | |
|---|---|
| **4.8** | **Ffynnon ger Cae'r Mynydd** - Mae'r gwaith wedi'i wneud. |
| **4.9** | **Gwastraff Cwn** - Mae cwynion wedi dod i law ynglŷn â bagiau gwastraff yn cael eu gadael o amgylch Talwrn a'u stwffio i mewn i ddraeniau. Bydd y Clerc yn gofyn am labeli gan y Cyngor Sir yn gofyn i'r cyhoedd roi bagiau gwastraff mewn biniau. |
| **4.10** | **8 Maes y Coed, Talwrn** - Mae'r Clerc yn aros am ymateb gan y Cyngor Sir |
| **4.11** | **Tai Lon Newydd -** Dywedodd y Cyng W Williams fod yna dyllau (potholes) yn yr ardal. Bydd y Clerc yn cyfeirio'r mater at y Cyngor Sir. |
| **4.12** | **Bryn Brochan** – mewn llaw |
| **4.13** | **Golau fflachio -** Mae'r Clerc yn aros i glywed gan y Cyngor Sir a ydynt wedi gallu testio yr arwydd? |
| **5** | **GOHEBIAETH CYNGOR YNYS MON** |
| | Dim |
| **6** | **GOHEBIAETH YCHWANEGOL** |
| **6.1** | Cyngor Gwynedd - pris Archwilio £260.00 |
| **6.2** | Alun Foulkes – pris Archwilio £150.00 - Cytunwyd i dderbyn y dyfynbris gan Mr Foulkes |
| **7** | **MATERION ERAILL** |
| **7.1** | Ildio Talwrn - Bydd y Clerc yn gofyn i'r Cyngor Sir am gyfarfod safle i drafod y problemau |
| **7.2** | Gor-yrru Talwrn - Bydd hyn yn cael ei drafod yn yr un cyfarfod â 7.1 |
| **7.3** | Rwbel gyferbyn a'r hen siop – mewn llaw |
| **7.4** | Polisi Bioamrywiaeth - Polisi Bioamrywiaeth – Derbyniodd yr aelodau fod y Clerc wedi dechrau sefydlu polisi. Bydd angen gwaith ychwanegol ar y cynllun dros y 3 blynedd nesaf. |
| **8** | **MATERION ARIANNOL** |
| | Cytunwyd i dalu: |
| **8.1** | JRB Enterprises £287.94 (bagiau gwastraff cwn) |
| **8.2** | Ffermwyr Ifanc Ynys Mon – rhodd £150.00 |
| **8.3** | Theatr Bara Caws – rhodd £250.00 |
| **8.4** | Y Samariaid – rhodd £500.00 |
| **8.5** | Rholiadau Ariannol - Mae'r rheoliadau diweddaraf yn awgrymu bod 2 aelod o'r Cyngor yn gwneud y taliadau ar-lein (nid y Clerc/Swyddog Cyllid) ac y dylai un aelod (ac eithrio'r Cadeirydd neu unrhyw un ar y mandad) gynnal gwiriad chwarterol ar bob taliad drwy archwilio anfonebau, datganiadau banc ac awdurdodi taliadau yn y cofnodion.<br><br>Llofnod……………………….Cadeirydd 15.04.25 |

| | |
|---|---|
| | Mae'r aelodau'n cytuno â'r siec chwarterol, ond bod taliadau'n parhau i gael eu gwneud gan y Clerc/Swyddog Cyllid fel sy'n bresennol. |
| **9** | **MATERION AR GYFER Y RHAGLEN NESAF** |
| | Dim |
| | Llofnod………………………….Cadeirydd 15.04.25 |